HM Treasury | Ministry of Housing, Communities & Local Government

9 Ebrill 2025

Annwyl Bartneriaeth Pensiwn Cymru,

**CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL (CYMRU A LLOEGR)**

Rydym yn ysgrifennu mewn perthynas â diwygiadau arfaethedig y Llywodraeth i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr (CPLlL) a'i ddull o gyfuno asedau fel rhan o'r Adolygiad Pensiynau.

Ym mis Tachwedd, amlinellodd y Llywodraeth ei diwygiadau arfaethedig yn ein hymgynghoriad *Fit for the Future,* gyda'r nod o sefydlu CPLlL o'r radd flaenaf i gynnwys cronfeydd mawr o gyfalaf wedi'u rheoli'n broffesiynol, yn cael eu dal i gyfrif gan Awdurdodau Gweinyddol gyda hyder mewn strwythurau llywodraethu cadarn a thryloyw, gan ddarparu'r gwerth gorau i aelodau a'u cymunedau. Rydym am weld sylfeini cadarn a gwydn ar gyfer cynllun y rhagwelir y bydd yn cyrraedd £1tn erbyn 2040, ac rydym wedi datgan yn eglur mai dyma'r adeg iawn i gyflwyno cynigion creadigol a chydweithredol i'r perwyl hwnnw.

Ysgrifennodd y Llywodraeth at bob cronfa, gan ofyn am gynigion pontio yn nodi sut y byddent yn ceisio cyrraedd yr isafswm safonau gofynnol a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad erbyn mis Mawrth 2026, yn canolbwyntio ar fanteision graddfa, gwytnwch hirdymor, gwerth am arian a hyfywedd erbyn y dyddiad cau, gan ystyried y cyfle i gydweithio'n agosach ar draws y cynllun ac uno cronfeydd. Rydym yn cydnabod fod hyn yn waith heriol i bob cronfa mewn cyfnod byr o amser a diolch i chi am eich agwedd gadarnhaol wrth ymgymryd â'r broses, ac am eich ymgysylltiad clos yn ystod y cyfnod. Mae eich cyflwyniad a'ch ymgysylltiad wedi ffurfio rhan hanfodol o'n hasesiad o hyfywedd a chryfder y cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac ar hyn o bryd mae'n paratoi'r camau nesaf, gan gynnwys ein hymateb i'r ymgynghoriad a gweithrediad y diwygiadau trwy ddeddfwriaeth.

**Rydym wedi adolygu eich cynnig ac yn gefnogol i chi symud ymlaen fel rydych wedi'i nodi, ac yn unol â dyddiad cau mis Mawrth 2026.** Mae eich cynnig yn bodloni'r meini prawf uchod yn ogystal â'r uchelgais gyffredinol a nodwyd yn ymgynghoriad y Llywodraeth i roi'r CPLlL ar y sail gryfaf posib ar gyfer y dyfodol. Mae'n amlwg bod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cofleidio'r uchelgais i greu cwmni buddsoddi CPLlL annibynnol i gyflawni ar ran eich wyth Awdurdod partner ac er budd Cymru gyfan. Rydym hefyd yn nodi uchelgais PPC i ddod yn arweinydd ar fuddsoddi lleol a buddsoddi effaith o fewn y cynllun, fel rhan o'ch cynllun pum mlynedd.

Er gwybodaeth, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r cynigion gan rai cronfeydd yn bodloni'r gofynion a nodir gan y Llywodraeth. Dylai Awdurdodau partner y cronfeydd hynny nawr geisio ymuno â chronfa arall ac rydym wedi gofyn iddynt am benderfyniadau mewn egwyddor i ymuno â chronfa wahanol erbyn 30 Medi 2025.

Mae ein swyddogion yn barod i'ch cefnogi trwy gydol y cyfnod hyd at y dyddiad cau ym mis Mawrth 2026 ar gyfer bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer cyfuno a byddant yn cysylltu â chi yn rheolaidd. Edrychwn ymlaen at weld eich cynnydd parhaus tuag at sefydlu rheolaeth fuddsoddi o'r radd flaenaf ar gyfer y CPLlL, i ddiogelu ei gynaliadwyedd hirdymor a gweithredu er budd aelodau, cyflogwyr a threthdalwyr lleol.



**TORSTEN BELL MP**

Gweinidog Pensiynau



**JIM MCMAHON OBE MP**

Gweinidog Llywodraeth Leol